# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 12 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:15 – 11:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_12_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **John Day, Lead Petitioner, P-04-024 Say No to TAN 8 – Windfarms and high voltage power lines spoiling our community**<br>**Huw Morgan, Montgomeryshire Against Pylons**<br>**John Morgan, Cambrian Mountains Society**<br>**Peter Ogden, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**<br>**Neville Thomas CF, Shropshire and Mid Wales Alliance** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)** |

### 1. Ethol Cadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 17.22

1.1 Etholodd y Pwyllgor Vaughan Gething fel Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn a'r cyfarfod yn y prynhawn.

### 2. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo.

## 3. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth ar TAN 8

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor am y polisi ynni a chynllunio yng Nghymru.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2011, y llythyron a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol a gafwyd i'r ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6.

## 6. Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - adroddiad drafft y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyron drafft gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin i Lywodraeth Cymru a chytuno i'r rapporteur ar gyfer Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau.

## 7. Ymchwiliad i'r achos busnes ar gyfer yr un corff amgylcheddol - cytuno ar y cylch gorchwyl a phenodi cynghorwyr arbenigol

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad i'r achos busnes ar gyfer yr un corff amgylcheddol.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i benodi yr Athro Terry Marsden a'r Athro Robert Lee fel cynghorwyr arbenigol i gynorthwyo â'r ymchwiliad. Wrth wneud hynny, nododd Antoinette Sandbach y byddai'n well ganddi petai'r Pwyllgor yn gallu dewis o ystod ehangach o ymgeiswyr.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.